Clive Staples Lewis 1898–1963

Awdur ac ysgolhaig

Ganwyd Clive Staples Lewis ar 29 Tachwedd 1898 yn Belfast, Gogledd Iwerddon, yn fab i'r cyfreithiwr Albert James a Florence Augusta Flora. Roedd ei fam yn un o raddedigion Coleg y Frenhines mewn mathemateg a rhesymeg. Bu hi farw o gancr pan nad oedd ond yn naw oed. Bythefnos yn ddiweddarach anfonwyd ef i ysgol ragbaratoawl Wynyard House yn Watford, Swydd Hertford. Yn ddiweddarach disgrifiodd y sefydliad hwnnw fel 'concentration camp'. Am gyfnod byr aeth i Goleg Campbell yn Belfast ond oherwydd salwch symudodd i ysgol arall yn Malvern ym 1911 ac enillodd ysgoloriaeth i Goleg Malvern ym 1913. Bu ei gyfnod yn yr ysgolion yn anhapus ar y cyfan ond yn Malvern magodd ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth Geltaidd a Llychlynaidd. Derbyniodd wersi ychwanegol gan W. T. Kirkpatrick a gafodd ddylanwad mawr iawn arno. Sylweddolodd Kirkpatrick aeddfedrwydd llenyddol hynod y gŵr ifanc oedd o dan ei hyfforddiant.

Ym 1916 enillodd ysgoloriaeth arall a'i galluogodd i fynd i Goleg y Brifysgol, Rhydychen. Bu'n rhaid iddo fynd i ymladd i'r ffosydd yn Ffrainc gyda'r fyddin ym 1917 ond cafodd ei anafu ym mrwydr Arras. O ganlyniad bu'n ymgeleddu ac yn ymgryfhau hyd ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Dychwelodd i Rydychen ym 1919 i astudio'r clasuron ac aeth i fyw gyda Mrs Moore a'i merch Maureen. (Gwnaethai gytundeb gydag un o'i gyd-filwyr, sef Paddy Moore, pe bai un ohonynt yn cael ei ladd y byddai'r llall yn gofalu am ei rieni. Mrs Moore oedd mam Paddy.) Ym 1922 enillodd radd dosbarth cyntaf yn y clasuron (*literae humaniores*), a gradd dosbarth gyntaf mewn Saesneg yn 1923. Penodwyd ef am gyfnod byr fel darlithydd athroniaeth ond ym 1925 etholwyd ef yn Gymrawd a thiwtor iaith a llenyddiaeth Saesneg yng Ngholeg Magdalen. Bu yn y swydd am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain. Y prif ddylanwad arno yn y cyfnod hwn oedd gweithiau Samuel Alexander a G. K. Chesterton.

Yn ysbrydol symudodd oddi wrth agnosticiaeth tuag at theistiaeth ac yna yn derfynol at Gristnogaeth. Cafodd dröedigaeth a phrofiad ysbrydol dirdynnol ym 1929 a weddnewidiodd ei fywyd. Adlewyrchwyd y newid calon yn glir yn ei weithiau llenyddol. Enghraifft o hyn oedd ei gyfansoddiad llenyddol alegorïol cyntaf a ysgrifennodd tra oedd ar wyliau yn Iwerddon sef *The Pilgrim's Regress* (1933).

Yn yr ystafelloedd yn Magdalen cyfarfyddai'r Inklings yn wythnosol. Criw o ffrindiau oedd y rhain – a Lewis yn eu plith – oedd yn rhannu eu cyfansoddiadau ac yn annog ei gilydd ymlaen. Yn eu plith yr oedd J. R. R. Tolkien, H. V. D. Dyson ac R. E. Havard.

Aeth C. S. Lewis ati i ysgrifennu nifer o gyfrolau ac yn eu plith yr oedd *The Allegory of Love* (1936) a *The Screwtape Letters* (1942). Daeth Lewis yn awdur byd-enwog ac erbyn 1963 roedd ei lyfrau clawr papur wedi gwerthu tros filiwn o gopïau. O holl weithiau amrywiol Lewis yr enwocaf yw *The Chronicles of Narnia*, saith cyfrol ffantasi ar gyfer plant a gyhoeddwyd rhwng 1950 a 1956. Teitlau'r straeon hyn yw *The Magician's Nephew*, *The Lion, the Witch and the Wardrobe, The Horse and his Boy, Prince Caspian, The Voyage of the Dawn Treader, The Silver Chair* a *The Last Battle*. Yn y llyfrau hyn y mae teulu o blant yn canfod y drws i wlad swynol Narnia. Yno mae'r cyfan yn hud a lledrith a'r creaduriaid yn siarad. Yr oedd ef am i'r llyfrau hyn ateb y cwestiwn, 'Sut un fyddai Crist pe bai byd fel Narnia yn bodoli ac y byddai yn dewis ymgnawdoli, marw ac atgyfodi yno fel y gwnaeth yn ein byd ni?'

Ysgrifennodd hefyd lyfrau ysgolheigaidd fel *English Literature in the Sixteenth Century* (1954). Fe'i penodwyd i gadair Llenyddiaeth Saesneg y Canoloesoedd a'r Dadeni ym 1954 yng Nghaergrawnt. Parhaodd i ysgrifennu toreth o lyfrau. Bu farw yn ei gartref The Kilns, ger Rhydychen, ar 22 Tachwedd 1963 ac fe gladdwyd ei weddillion yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Headington, Rhydychen.